Straeon Mudo Caerdydd

# Jas

Roedd Jas yn byw yn Lloegr pan symudodd i'r DU yn gyntaf, ond roedd ei dad yn dod i weld ffrindiau yng Nghaerdydd ac roedd mor hoff o'r ddinas, symudodd yno. Roedden nhw'n un o'r teuluoedd Sîc cyntaf i ddod i Gaerdydd.

(Sut ddaethoch chi i Gaerdydd?) "Daethon ni i Gaerdydd ym 1956 a sefydlu'r deml Sîc gyntaf yng Nghaerdydd ar Ninian Park Road."

(Oes yna lefydd penodol fyddwch chi'n mynd iddyn nhw?) "Oes. Ers dod i Gaerdydd, ail-agorais y siop hon, a thrwy hynny, yn rhan amser, des i'n beiriannydd radio a theledu. Yna gweithiais ar y fainc yn trwsio setiau teledu. Cymerais amser i ffwrdd i fynd i India a phan ddes i'n ôl allwn i ddim dod o hyd i waith yn y siop honno ac roedd pobl yn cynnig imi fynd i'w tai i drwsio eu setiau teledu. Ond y broblem oedd, os oeddech chi'n mynd i dai pobl, doeddech chi ddim yn gallu trwsio'r teledu, roedd yn rhaid i chi ei nôl, os nad oedd rhywun yno i'w roi yn y fan, a dod ag ef i'r gweithdy. Ar ôl ei drwsio fyddech chi'n mynd ag e'n ôl, ac os nad oedd neb yno roedd yn rhaid i chi wneud hynny ar eich pen eich hun.

Teimlais fod fy nghefn yn wael felly rhois y gorau i hynny a dod yn weithiwr cymdeithasol. Ar ôl hynny des i'n ynad a gweithiais fel ynad am 20 mlynedd.

LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI